Casglu Tystiolaeth

Rhagymadrodd

Os yw eich Cynllun Cynefin i'w fabwysiadu gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol fel Canllaw Cynllunio Atodol, bydd yn rhaid i chi ddangos ei fod wedi bod yn destun ymgynghoriad arbennig o dda, neu ymrwymiad cymunedol. Yn anffodus gallech chwilota am byth am unrhywbeth sy'n dweud wrthych pa fath, pa ansawdd a pha faint o ymgynghoriad sy'n angenrheidiol i lamu dros y glwyd mabwysiadu!

Ein barn ni yw bod ymgynghoriad da – neu ymrwymiad cymunedol – yn hanfodol ar gyfer unrhyw Gynllun Cynefin am dri rheswm allweddol:

- Fel yr awgrymwyd uchod, bydd yn llawer mwy tebygol o gael llwyddiant ar unrhyw gam ffurfiol.
- Gall gwneud pobl yn ymwybodol, ac oherwydd hynny, gynyddu'n ddramatig, yr adnoddau ar gael i'r grŵp craidd sy'n paratoi'r Cynllun Cynefin.
- Y mwyaf ymwybodol yw pobl eich cymuned o'r Cynllun Cynefin a'i rôl, y mwyaf ymgysylltiedig fyddan nhw – ac yn fwy effeithiol – pan fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno wedi i'r cynllun gael ei orffen.

Mewn geiriau eraill, mae'n annoeth i feddwl am fynd dros glwyd mabwysiadu trwy wneud cyn lleied o ymgynghoriad â phosibl. **Felly beth fyddai 'ymrwymiad cymunedol da'?**

Dod yn nes at 'ymrwymiad cymunedol da'

Gall ymgynghoriad neu ymrwymiad cymunedol olygu llawer o wahanol bethau a wneir gan a chyda phobl leol *. Gallai hyn fod yn holiadur, arddangosfa, gweithdy, arolwg, gwefan, gweplyfr, trydar, llythyr cymunedol, posteri, stondin mewn gŵyl gymunedol …. ac yn y blaen. (* Ac efallai gydag eraill sy'n byw ymhellach os, er enghraifft, rydych yn awyddus i weld mwy o ddefnydd ar eich neuadd leol.)

Efallai'r pwynt mwyaf hanfodol i'w wneud yw, ar gyfer unrhyw Gynllun Cynefin, **dylid gwneud rhan, o sawl un, o'r rhain, o leiaf** oherwydd bod yn well gan wahanol bobl ddulliau gwahanol. Nid mater o anfon holiadur 'beth ydych chi eisiau?' ar y diwrnod cyntaf ydy hyn nag ychwaith cyflwyno cynllun sydd bron â'i orffen tua diwedd y broses.

Yr hyn sydd ei angen mewn unrhyw raglen dda o ymgynghoriad yw ystod o:

- **ddulliau gwahanol** (gweithdai, holiadur, arolwg, fel uchod);
- **ar wahanol bynciau** (gweithdy'n well ar gyfer rhai pynciau, arolwg ar gyfer eraill);
- **gyda gwahanol bobl** (mae rhai'n caru a rhai'n casáu gweithdai, mae hyn yn wir am bob dull);
- **ar wahanol gamau yng nghreu y cynllun** (mae digwyddiadau amhenodol yn

dda ar y cychwyn a rhai â mwy o ffocws tua'r diwedd).

Mae hyn oll yn awgrymu dull sydd wedi ei dargedu'n ofalus, yn hytrach nag holiadur unigol ac un diwrnod agored heb unrhyw darged penodol. Efallai bydd yn rhaid i chi fynd am dro yn gynnar yn y broses gydag ieuenctid eich cynefin i gasglu gwybodaeth ar yr hyn mae nhw'n ei wneud ac ymhle (er na fyddant yn dweud wrthych bob amser!), cynnal arolwg fanwl hanner ffordd trwy'r broses, cynnal gweithdy wedi ei reoli'n ofalus i osod blaenoriaethau tua'r diwedd gyda phobl hŷn, ac yn olaf, cynnal ymgynghoriad mwy ffurfiol gyda 'phawb' ar y cynllun drafft.

Mae pwynt allweddol arall a fethir yn rhy aml. Cymerir yn ganiataol ambell waith, mewn ymgynghoriad, mai 'ni' (y Grŵp Llywio) sy'n paratoi syniadau a chynigion (y cynllun draft) ac mai 'nhw' (y gymuned ehangach) sy'n rhoi eu sylwadau arno. Ymhob achos bydd adeg, neu fwy nag un, pan fo'n rhaid i egwyddorion, syniadau, cynigion ac ati, sy'n dod i'r amlwg, fod yn agored i 'bawb' i ymateb iddynt. Fodd bynnag, gall – a dylai – ymrwymiad cymunedol hefyd olygu ceisio cael cymaint o bobl â phosibl i ymgysylltu'n uniongyrchol â chasglu tystiolaeth hanfodol a gwaith arolwg.

Gall hyn ychwanegu'n arwyddocaol at adnoddau pobl i unrhyw Grŵp Llywio. Mae rhai o'r Pecynnau Cymorth eraill yn delio â hyn; canllawiau ydyn nhw ar sut gall pobl leol eu hunain ymgymryd â chasglu tystiolaeth mewn ffordd fydd yn dangos cadernid yng ngwyneb y gwirio yn y cam mabwysiadu. Mewn un enghraifft ddiweddar, penderfynodd Grŵp Llywio o tua 10 o bobl i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Asesu Cymeriad i gynnal arolwg o'r gwahanol Ardaloedd â Chymeriad yn eu cymuned. Cymerodd bob aelod o'r Grŵp Llywio ffurflen, a chymryd 3 o bobl eraill, oedden nhw'n eu hadnabod, i wneud yr arolwg gyda nhw. Yn sydyn roedd 30 unigolyn arall yn ymwneud yn ddwys â'r cynllun. Yn ogystal â chynhyrchu'r dystiolaeth eithriadol bwysig, mae'r fath waith hefyd yn cyfrif fel, a dylid ei gofnodi fel, 'ymgynghori'.

Rhai 'cynhwysion' ar gyfer eich 'rysait' ymrwymiad

Wedi dweud nad oes cyfres o safonau cytunedig ar gyfer ymrwymiad cymunedol da', mae hefyd yn bwysig iawn eich bod yn datblygu'r dull – y 'rysait' – sy'n briodol i'ch pobl, eich cynefin, eich materion. Nid oes gan hwnnw fformat safonol, felly'r hyn a gynigiwn ni yma yw rhai 'cynhwysion' posibl er mwyn i chi eu cyfuno i greu eich 'rysait' lleol eich hun.

Arolygon

Rydym yn rhoi hwn yn gyntaf oherwydd bod rhai pobl yn credu mai hwn yw'r 'ateb'. Gall arolygon fod yn werthfawr iawn ond yn aml maent wedi eu rheoli a'u dylunio'n wael ac nid ydynt yn darparu'r math o dystiolaeth dilys sy'n angenrheidiol i fodloni swyddogion cynllunio.

Gall cynnal arolwg eang, sydd wedi ei gylchredeg yn eang, yn gynnar ym mhroses y Cynllun Cynefin, ddod â llawer o bob math o safbwyntiau a syniadau i'r amlwg, ond mae hyn yn fwy am ddyheadau na thystiolaeth. Ambell waith gelwir y rhain yn 'restrau dymuniadau', sy'n awgrymu y dylid cymryd gofal mawr i osgoi codi disgwyliadau ffug ynghylch yr hyn gall Cynllun Cynefin gynnwys a faint o ddylanwad

sydd ganddo. Nid yw hynny'n golygu na ddylid gofyn pob math o gwestiynau; gellir eu gofyn, ond mae hyn yn ymwneud â sut yr esbonir yr arolwg i bobl.

Gall cynnal arolwg hanner ffordd trwodd, neu thua'r diwedd, fod yn ffordd werthfawr o gadarnhau (neu ddim!) y cynigion sy'n dod i'r amlwg, ond eto, mae'n rhaid sicrhau bod ffocws gofalus arno.

Ac, wrth gwrs, mae'n angenrheidiol cael gofal mawr wrth ddrafftio'r cwestiynau, targedu'r bobl briodol a chynnwys gwybodaeth briodol i alluogi dadansoddiad defnyddiol o'r canlyniadau.

Mae hwn yn bwnc mor allweddol fel yr argymhellwn yn gryf eich bod yn creu unrhyw arolwg gyda chymorth medrus (gweler nes ymlaen).

Arddangosfeydd: Rhyngweithiol neu Gyflwyniad

Ymron bob cam mae gwerth go iawn mewn cynnal rhyw fath o arddangosfa ar gyfer pawb o bosibl yn eich cymuned (ac yn ddiau byddwch chi'n gwybod y lle gorau i wneud hynny, am ba hyd a sut i ddenu pobl).

Yn y camau cynnar, neu hanner ffordd trwodd, mae'n debyg y dylai unrhyw arddangosfa fod yn rhyngweithiol h.y. wedi ei dylunio i ganiatáu pobl i ychwanegu sylwadau. Gall y rhain fod yn sylwadau uniongyrchol h.y. trwy dicio blychau ar, neu ychwanegu sticeri at, fwrdd arddangos. Hefyd, gall fod yn fwy fel arolwg pan fo pobl yn cerdded o amgylch, yn edrych ar yr arddangosfa ac yn llenwi ffurflen. Yn fwyaf pwysig, mae'n rhaid cael aelodau o'r Grŵp Llywio ar gael mewn digwyddiadau o'r fath er mwyn sgwrsio, ateb cwestiynau, eglurhau pwyntiau ac yn y blaen. Mewn gwirionedd mae cael pobl i siarad gyda'i gilydd mewn digwyddiadu fel hyn yn hynod o effeithiol!

Tua diwedd paratoi'r cynllun gall arddangosfa ar ffurf cyflwyniad fod o werth, er, hyd yn oed bryd hynny, mae'n werth gwneud hynny cyn fod popeth yn derfynol, gan roi un cyfle olaf i gael, ac ystyried, sylwadau.

Gweithdai

Mewn gweithdai mae'n bosibl rhoi cyfleoedd i grwpiau bach o bobl i ymgysylltu â'i gilydd, i drafod, rhannu a datblygu syniadau, yn hytrach na rhoi atebion 'ticio blychau' i arolwg.

Gellir cynnal gweithdai ar unrhyw adeg wrth baratoi'r cynllun ond maent yn werthfawr iawn pan fo'r cynigion cyntaf yn dechrau dod i'r amlwg a bod angen cael trafodaeth ynghylch manylion, gwrthdaro posibl, blaenoriaethau, syniadau ychwanegol ac yn y blaen – mae'n well trafod pethau fel hyn gan grŵp tu hwnt i'r Grŵp Llywio yn unig. Ac, wrth gofio hynny, gellir targedu gweithdai at grwpiau penodol e.e. cymdogion i safle sy'n cael ei ystyried i'w newid, neu bobl ifanc pan yn ystyried cyfleusterau cymunedol.

Unwaith eto, mae ar gynllunio a chynnal gweithdai effeithiol llwyddiannus (gan alluogi pawb i gyfrannu, canolbwyntio ar bwnc, osgoi dadlau ac ati) angen rhyw lefel o brofiad a sgil.

(Gallwch, wrth gwrs, gynnal gweithdai bychain yn ystod arddangosfa.)

Cylchlythyrau

Defnyddir cylchlythyrau, taflenni a gwefannau ac ati ran fwyaf i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth (ac maent yn dda iawn yn gwneud hynny) er gellir eu defnyddioo hefyd ar gyfer arolygon mwy anffurfiol. Gallwch, er enghraifft, gynnwys cwestiwn ynghylch safle posibl i'w ddatblygu mewn cylchlythyr a gwahodd sylwadau, neu ofyn i bobl i gymryd lluniau o enghreifftiau allweddol o adeiladau lleol unigryw. Er fod hyn yn anffurfiol mae'n rhaid cadw cofnodion da.

Cystadleuthau

Yn ddiau mae cynnwys cyfleoedd i bobl ennill gwobrau yn cynyddu ymatebion i unrhyw ymgynghoriad! Er enghraifft, gall arolygon gysylltu â gwobrau: tri holidaur cyflawn yn cael eu dewis ar hap yn ennill rhyw fath o wobr *: gellir cael gwobrau ar hap ar gyfer y rhai sy'n arwyddo presenoldeb mewn arddangosfa neu'n rhoi sylwadau ar wefan neu mewn cylchlythyr. (* Mae'r fath wobrau'n ffordd brofedig o gael rhyw fath o ariannu: siopau lleol neu gyflogwyr yn darparu'r gwobrau.)

Gallwch hefyd gynnal cystadleuthau penodol. Un ffordd yw dyfeisio cliwiau megis ffotograffau ar gyfer taith o amgylch tref neu bentref, gydag elfen allweddol ychwanegol: pryd bynnag fo rhywun yn dod o hyd i gliw gofynnir cwestiwn allweddol iddynt am ddiogelwch, adeilad newydd, man gwyrdd posibl ac ati. Ond gair o gyngor. Mae'n bwysig cael y cydbwysedd yn iawn er mwyn sicrhau eich bod yn cael canlyniadau ymgynghoriad dilys, nid llenwi ffurflen yn gyflym yn y gobaith o ennill rhywbeth!

Cerdded o amgylch eich cynefin

Un ffordd effeithiol iawn o ennyn diddordeb pobl ac i gael 'canlyniadau' yw i drefnu cerdded o amgylch eich cynefin; mae hyn yn ddigwyddiad cymdeithasol i'w fwynhau oherwydd mae pobl yn hoffi cael cyfarwyddyd i fynd i weld rhywbeth yn eu cynefin nad ydynt wedi sylwi arno erioed o'r blaen. Ac, wrth gwrs, mae'r daith gerdded wedi ei threfnu mor ofalus er mwyn mynd heibio lleoedd ac adeiladau sy'n gofyn am ymateb yn nhermau'r pethau allweddol yn y Cynllun Cynefin sy'n dod i'r amlwg.

Gwaith gydag Ysgolion

Mae athrawon da, mewn ysgolion cynradd ac eilradd (a cholegau) bob amser yn chwilio am brosiectau neu ymarferion ar gyfer eu myfyrwyr i ymgysylltu â nhw, sy'n seiliedig ar fywyd go iawn mewn sefyllfaoedd lleol. Byddai rhannu agenda Cynllun Cynefin sy'n dod i'r amlwg gydag athrawon lleol bron yn ddiau yn ysgogi ymateb y byddai A neu B yn gwneud pwnc da iawn ar gyfer prosiect. Bydd yr athrawon, wrth gwrs, yn gwybod orau sut yn union i baratoi'r sesiynau, taflenni gwaith ac ati ond gall gwybodaeth am eich Cynllun Cynefin fod yn hanfodol ac, os mai'r bwriad yw i bod y

plant yn mynd am dro bydd ‘cynorthwywyr’ yn angenrheidiol. Yn fwy na hyn, gall tasgau, sydd wedi eu rheoli’n dda, a’u cwblhau, hyd yn oed gan blant, ddarparu tystiolaeth wirioneddol, ddefnyddiadwy ar gyfer eich cynllun.

Mae mantais allweddol arall o weithio gydag ysgolion. Yn aml iawn nid yw rhieni prysur yn llenwi ffurflenni nag yn dod i arddangosfeydd. Fodd bynnag, os yw gwaith eu plant wedi ei arddangos yn eich arddangosfa byddant yn bendant yn dod i’w weld ac mae hon yn gynulleidfa allweddol i’w dal!

Ymuno â Digwyddiadau Eraill

Mae disgrifiad popeth uchod yn canolbwyntio arnoch chi’n cynnal eich digwyddiadau Cynllun Cynefin eich hun. Dull effeithiol arall yw ymuno â digwyddiad rhywun arall: ffair bentref, arddangosfa arall (e.e. am hanes lleol) neu rywbeth yn yr ysgol leol. Gydag ychydig o berswâd, gallech gael ‘stondin’ neu arddangosfa fach mewn digwyddiad arall, a chael gafael ar bobl na fyddai’n dod i’ch digwyddiadau chi.

Ymweliadau

Mae’r uchod hefyd wedi disgrifio pethau i’w gwneud o fewn eich cymuned eich hun. Un o’r pethau mwyaf effeithiol i’w wneud yw i ymweld â thref neu bentref arall ble maent wedi cyntuno ar Gynllun Cynefin a / neu ble mae datblygiad enwedig o ddiddorol neu fenter cymunedol yn bodoli. Pe gwnewch hynny, ceisiwch sicrhau bod pobl leol yn eich tywys o amgylch oherwydd byddant hwy’n dweud wrthych y stori sydd wir yn bwysig – y gwell a’r gwaeth, y problemau a’r manteision – a wnaeth i’w cynllun neu eu prosiect ddigwydd.

A …..

Pheidiwch ag anghofio’r hyn sydd wedi ei grybwyll o’r blaen: bod cael cynifer o bobl â phosibl i ymgysylltu’n weithredol yn y tasgau ymarferol, a ddelir â hwy yn rhai o’r Pecynnau Cymorth eraill, yn cyfrif fel ymgynghoriad …… ac mae’n rhoi tystiolaeth gadarn iawn i chi!

Ymgynghoriad Ffurfiol

Unwaith bod eich Cynllun Cynefin wedi ei orffen, bydd eich awdurdod lleol un ai’n arwain y cam ymgynghoriad ffurfiol neu’n eich tywys chi i wneud hynny. Mae hyn oherwydd bod materion pwysig i’w trafod, er enghraifft, ymgynghori â rhai asiantaethau statudol (awdurdod dŵr ac ati) a gwneud yn siwr eich bod wedi cynnwys pob un o fewn eich ardal chi.

Help!

Mae ymgynghoriad ac ymrwymiad cymunedol yn agweddau ble byddai o werth gofyn am gymorth gan eraill. Gellid gofyn i gymunedau cyfagos sydd eisoes wedi cynnal arolwg neu ysgol sydd wedi cynnal prosiect. Gellir cael cymorth hefyd gan eich swyddogion cynllunio yn yr awdurdod lleol, er enghraifft ar gwestiynau arolwg, er efallai y byddent hefyd yn awgrymu pobl eraill mewn adrannau proffesiynol eraill, neu sefydliadau gwirfoddol lleol sydd â sgiliau a phrofiad. Gofynnwch o amgylch!

Os ydych yn awyddus iawn ac yn dymuno darganfod pob math o ddulliau eraill, llyfr ymarferol da yw '*Community Planning Handbook*' gan Nick Wates, o Earthscan, ar gael o'ch llyfrgell neu gofynnwch i'ch awdurdod lleol am gopi.

Adrodd ar eich ymgynghoriad

Er mwyn sicrhau statws CCA i'r Cynllun Cynefin, dywedasom ar y cychwyn, y bydd yn rhaid i chi ddangos eich bod wedi rheoli ymrwymiad cymunedol da. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch Cynllun Cynefin terfynol i'r awdurdod lleol, bydd yn rhaid i adroddiad trylwyr gydfynd â'r Cynllun.

Unwaith eto, nid oes fformat safonol ar gyfer adroddiad o'r fath ond un ffordd weddol hawdd i wneud hyn yw i gynnwys nodyn ar bob un digwyddiad a gweithgaredd ynghyd â chrynodeb o'r cyfan. Dylai pob nodyn ar y digwyddiad neu'r weithgaredd gynnwys gwybodaeth sylfaenol allweddol megis:

- Sut yr hysbyswyd unrhyw ddigwyddiad.
- Ble y'i cynhaliwyd. (Gall hyn gynnwys 'trwy wefan'.)
- Pryd y'i cynhaliwyd. (Byddai unrhyw arolwg yn cynnwys am ba hyd a thros pa ddyddiau y byddai pobl yn gallu ymateb.)
- Faint o bobl gymerodd ran neu a roddodd sylwadau. (Mewn sesiwn galw-i-mewn efallai byddai nifer X o bobl wedi mynychu ond dim ond nifer Y oedd wedi cwblhau unrhyw ffurflen.)
- Cofnod llawn o'r sylwadau a wnaed a chrynodeb.
- Nodyn o sut y defnyddiwyd y canlyniadau yn eich cynllun, ac os nis defnyddiwyd, pam.

Ond mae profiad chwerw yn cynnig gwers allweddol ynghylch hyn sy'n talu yn ôl ei chanfed nes ymlaen. Byddwch yn sicr eich bod yn ysgrifennu nodyn am bob digwyddiad cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad, neu fel arall byddwch yn ei chael yn anodd i geisio cofio'r holl fanylion am yr hyn a wnaethoch a chyda phwy ac ati.

Yna, wrth gwrs, gyda'r nodiadau manwl am y digwyddiadau o'ch blaen wrth i'ch chynllun ddod i'r fei, y cwbl sy'n rhaid i chi ei wneud yw crynhoi'r cyfan mewn adroddiad (byr).